


Llyfrgelloedd a Dysgu

Rôl gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus ar drawsogledd
Cymru yn hybu cyrhaeddiad, cyfranogiad ac ymrwymiad plant a phobl ifanc



Bethan M Hughes
Rheolwr Gwasanaethau Darllen,
Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
Hydref 2011



Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ategu ac yn cyfoethogi'r addysg a dderbynia plant yn yr ysgol trwy gefnogi mwyafrif agweddau'r cwricwlwm a darparu cyfleoedd cyfoethogi, cyfrannu at safonau uwch a gwella ansawdd bywyd i blant a phobl ifanc. Mae llyfrgelloedd yn cydweithio'n agos ag ysgolion a staff addysg i sicrhau bod plant yn medru cael adnoddau, cymorth a chefnogaeth dysgu ac ymwneud â'r gymuned.

Nod yr adroddiad hwn yw dangos y cyfraniad mae llyfrgelloedd yn ei wneud i safonau, a thynnu sylw at enghreifftiau o arfer dda. Cynhwysir rhagor o ddata manwl a chymharol yn Atodiad 1. [Mae'r holl ffigurau yn cyfeirio at 2010-11, oni nodir yn wahanol.]

1 Iaith, Llythrennedd a Darllen

Mae llyfrgelloedd yn darparu gweithgareddau i hybu dysgu, llythrennedd a darllen er pleser, yn ogystal â darparu ystod eang o lyfrau a llyfrau llafar o'r ansawdd uchaf. Mae llyfrgelloedd yn cynnig amgylchedd darllen cefnogol, lle gall plant fwynhau darllen yn eu lle eu hunain ac yn eu hamser eu hunain, gyda chymorth wrth law gan staff cefnogol pan fo angen. Mae'r plant yn meithrin agweddau positif tuag at ddarllen trwy fynediad am ddim at ystod enfawr o lyfrau; cynyddu eu hyder a gwella eu sgiliau darllen ac ysgrifennu; a gwella eu sgiliau siarad, gwrando a chyfathrebu, trwy sgwrsio am lyfrau.

- Gwnaeth 14,279 o blant ar draws gogledd Cymru gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf fflynyddol yn 2011. Mae'r rhaglen hon yn cynnal a datblygu sgiliau darllen a chymhelliant plant yn ystod gwyliau'r haf. Mae hyn yn cynrychioli 21% o'r boblogaeth gynradd.
- Yn Sir Ddinbych, lle mae Sialens Ddarllen yr Haf yn elfen allweddol o'r cynllunio strategol ar y cyd rhwng Addysg a Llyfrgelloedd, cyfranogodd 56.3% o'r boblogaeth gynradd yn y Sialens, gyda'r nifer uchaf o gyfranogwyr a'r gyfradd cwblhau'r Sialens uchaf yng Nghymru (68%) – y cyfartaledd cwblhau yng Nghymru yw 55%.

Y cyswllt rhwng defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus a sgiliau darllen pobl ifanc a chyrrhaeddiad yn yr ysgol

Mae pobl ifanc sy'n darllen ar lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran ddwywaith mor debygol o fod yn ddefnyddwyr llyfrgell gyhoeddus, ac mae pobl ifanc sy'n darllen ar lefel is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran ddwywaith mor debygol o beidio â bod yn ddefnyddwyr llyfrgell gyhoeddus.

Mae'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell fwy na theirgwaith yn fwy tebygol o ddatgan na fedrant ddod hyd i rywbeth i'w ddarllen sydd o ddiddordeb iddynt, a meddwl nad ydynt yn ddarllenwyr da iawn, o'u cymharu â defnyddwyr llyfrgell. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio eu llyfrgell gyhoeddus bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn darllen y tu allan i'w gwersi bob diwrnod.

Public Libraries and Literacy : Young people's reading habits and attitudes to public libraries, and an exploration of the relationship between public library use and school attainment

Christina Clark a Lucy Hawkins, National Literacy Trust, Chwefror 2011

- Mae Sgwadiâu Sgwennu yn cynnig cyfle i ysgrifennwyr ifanc dawnus a thalentog weithio â phrif awduron a beirdd plant i ddatblygu eu sgiliau, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Sgwadiâu Sgwennu yng Ngwynedd (3 sgwad), Sir Ddinbych (4 sgwad) a Wrecsam (2 sgwad) yn ddarpariaeth gan y Gwasanaeth Llyfrgell mewn partneriaeth ag ysgolion ac Addysg, ac fe'u cyllidir yn rhannol gan Lenyddiaeth Cymru.
- Mae pob Gwasanaeth Llyfrgell yn trefnu ymweliadau gan awduron a darlunwyr llyfrau plant i roi cyfle i blant gyfarfod awdur, gweithgaredd sy'n cael effaith arwyddocaol a thymor hir ar gymhelliad plant i fwynhau darllen a llyfrau. Gwnaeth 14,000 o blant gymryd rhan mewn ymweliadau gan awduron a drefnwyd gan llyfrgelloedd, yn aml adeg Wythnos Llyfrau Plant a Diwrnod y Llyfr.
- Comisiynodd Gwynedd y teithiau Hei Hogia, sef criw o actorion yn cyfleu darnau o ddetholiad o lyfrau i annog darllen, gan dargedu bechgyn yn benodol. Prynwyd y sioe gan Sir Ddinbych, Ynys Môn a Chonwy hefyd.
- Mae'r Cwisiau Llyfrau blynyddol yn galluogi disgyblion ac athrawon i ystyried llyfrau plant cyfoes yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r chwe awdurdod yn cefnogi'r cwisiau llyfrau cenedlaethol a drefnir gan Gyngor Llyfrau Cymru. Mae pedwar awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gogledd Ddwyrain Cymru i drefnu'r Cwis Llyfrau Saesneg.
- Yn Wrecsam mae plant yn mynd i glybiau darllen rheolaidd mewn llyfrgelloedd lleol i'w cymell i fwynhau darllen er pleser.
- Gwnaeth y prosiect Mentoriaid Darllen, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn Sir Ddinbych ac a gyllidwyd gan grant Gwella Llythrennedd Bechgyn gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, dargedu 41 o fechgyn Blwyddyn 5 a oedd yn tangyflawni o chwe ysgol gynradd. Cawsant gefnogaeth 1-1 gan fentoriaid a oedd yn oedolion ifanc i hybu brwdfrydedd tuag at ddarllen, yn yr ysgol ac yn y llyfrgell leol yn ystod tymor yr Haf. Gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn yr oedran darllen a llwyddodd 29% i wneud cynnydd o 12 mis neu ragor dros gyfnod o flwyddyn. Mae'n annhebygol iawn y byddent wedi gwneud y cynnydd hwn heb y fenter hon.
- Gwnaeth ail grant Gwella Llythrennedd Bechgyn yn 2010 ariannu rhaglen o ymweliadau gan brif awduron plant gwrywaidd i lyfrgell y Rhyl ar ei newydd wedd. Daeth 578 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 o bedair ysgol leol i'r llyfrgell i gwrdd â'r awduron, gweld y cyfleusterau newydd ac ymaelodi â'r llyfrgell.
- Mae darllenwyr anfoddog a'r rhai sydd ar ei hôl hi yn ysgolion Sir y Fflint yn cymryd rhan mewn prosiectau (Clybiau Darllen, prosiect Nofel Graffig) a drefnir mewn partneriaeth ag Ymgynghorwyr Dysgu'r Awdurdod Addysg Lleol, Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gogledd Ddwyrain Cymru a sefydliadau allanol. Rhoir cyfle i'r plant sy'n cymryd rhan weithio ag awduron, beirdd, storiwyr ac artistiaid blaenllaw i ddatblygu eu sgiliau.
- Yng Nghonwy cyfranogodd 397 o blant mewn gweithdai ag awduron, amser stori a sesiynau celf a chreffft a gyflwynwyd gan staff llyfrgelloedd a Swyddog Celfyddydau y Gwasanaeth Addysg. Darparwyd y sesiynau gweithio ag awduron, a ariannwyd gan Grant Gwella Llythrennedd Bechgyn Sgiliau Sylfaenol Cymru, yn y llyfrgelloedd a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau haf er mwyn caniatáu i amrediad eang o blant fanteisio ar y rhain.

“... mae ein plentyn wyth oed wedi croesi'r bont i fod yn ddarllenydd rhugl yn sydyn, ac mae cyfran fawr o hyn oherwydd anogaeth y staff [llyfrgell], sydd wedi ei helpu hi i ddewis llyfrau priodol.. Rydw i wedi byw mewn nifer o gymunedau... ond dydw i ddim wedi dod ar draws llyfrgell mor wych o'r blaen.”

Rhiant o Langollen

2 Dysgu yn ystod y blynyddoedd cynnar a datblygiad cyn-ysgol

Mae llyfrgelloedd yn rhan annatod o strategaeth Dechrau'n Deg a/neu strategaeth Cymorth pob awdurdod, gan weithio mewn partneriaeth agos ag ymwelwyr iechyd, canolfannau gwasanaethau integredig i blant, mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau cymorth a chefnogaeth i deuluoedd.

- 2.1 Dechrau Da yw'r cam cyntaf ar y daith dysgu gydol oes, ac mae'n cyflwyno babis a'u teuluoedd i fyd llyfrau a llyfrgelloedd i roi hwb iddynt mewn bywyd. Mae gwaith ymchwil wedi profi bod plant sy'n cael eu cyflwyno i lyfrau o oedran ifanc yn gwneud gwell cynnydd ar ôl cyrraedd yr ysgol, a bod cyflawniad addysgol wedi'i ddylanwadu'n gryf gan agweddau plant tuag at ddysgu. Mae sesiynau amser rhigwm Dechrau Da a sesiynau stori yn y llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol mewn ardaloedd anghenus yn cynyddu hyder rhieni ynghylch rhannu llyfrau a rhigymau â'u plant, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith gynnar a datblygiad cymdeithasol plant.
- Mae pob plentyn yng ngogledd Cymru yn derbyn bag Dechrau Da yn rhodd. Mae'n cynnwys llyfrau am ddim, cyngor i rieni a gwahoddiad i ymaelodi â'r llyfrgell yn 8 mis oed a dwy oed fel rhan o'r cynnig Dechrau Da cyffredinol yng Nghymru. Rheolir y cynllun yn lleol gan y Gwasanaethau Llyfrgell ac yn genedlaethol gan Book Trust Cymru â chyllid gan Lywodraeth Cymru.
 - Cafwyd presenoldeb 31,454 mewn sesiynau rhigymau a storïau Dechrau Da mewn llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol ledled gogledd Cymru.
 - Tynnwyd sylw at effaith Dechrau Da yn Sir Ddinbych a'i enwi yn fodel enghreifftiol gwych ar gyfer cyflenwi'r cynllun yn gadarnhaol yn adroddiad Gwerthuso Effaith Dechrau Da yng Nghymru 2010 gan CRG Research. Cydnabuwyd gwaith y tîm Dechrau Da hefyd wedi iddynt ennill y Wobr Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer (Allanol) Sir Ddinbych yn 2010.
 - Mae pob plentyn sy'n dod yn aelod o'r llyfrgell o ganlyniad i dderbyn eu pecyn Dechrau Da yn cael llyfr am ddim gan awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Mae 19% o blant yn ymaelodi â'r llyfrgell o ganlyniad uniongyrchol i Dechrau Da yng Ngwynedd.
 - Cynhelir Gŵyl Blant aml-asiantaeth yn flynyddol yn Ynys Môn, gyda mwy na 2,000 o blant yn dod i'r digwyddiad. Mae gan y Gwasanaeth Llyfrgell stonidn wybodaeth a hyrwyddo yn yr ŵyl bob blwyddyn.

"Mae'n wasanaeth mor wych dylem fod yn gweiddi'n groch amdano, a'i hysbysebu ar bob gwagle hysbysebu er mwyn gadael i bobl eraill wybod."

"Mae Dechrau Da wedi gwneud i'm merch i ddysgu bod llyfrau yn hwyl."

"Rydw i'n hoffi mynd â'm mab i Dechrau Da. Rydw i'n dysgu sut i fod yn well rhiant, ac rydw i'n cynnwys llawer o'r caneuon yn ein gweithgareddau bob dydd."

"Rydw i'n ei chael yn haws mynd at y staff yn awr, ac wedi sylweddoli eu bod yn gyfeillgar, yn enwedig tuag at deuluoedd."

"Mae'n dod â gwen i'w wynebau ac mae wedi eu helpu i ddatblygu eu iaith a'u lleferydd trwy ganeuon a storïau."

Rhieni fu'n dod i sesiynau amser rhiwmg Dechrau Da yn llyfrgelloedd Sir Ddinbych

3 Amrywiaeth a Chynhwysiad

- 3.1 Llyfrgelloedd yw un o'r adnoddau cymunedol a ddefnyddir ehangaf, manau cymunedol sy'n dathlu amrywiaeth lleol. Trwy ddefnyddio llyfrgelloedd mae plant yn dysgu rhyngweithio â phobl o wahanol oedrannau a sefyllfaoedd, a rhannu adnoddau.
- 3.2 Anghenion Addysg Arbennig: Mae llyfrau print bras, llyfrau llafar ar gryno ddisgiau a llyfrau cyffwrdd ar gael i'w benthyca am ddim, ac mae'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn cynnwys cyfrifiaduron â thechnoleg addasol.

Rhoir fersiynau o'r pecyn Dechrau Da wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg (Book Touch) a nam ar eu clyw (Bookshine). Mae deunyddiau Sialens Ddarllen yr Haf ar gael mewn print mawr ar gyfer plant â nam ar eu golwg hefyd.

- Mae disgyblion o ysgolion arbennig Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd yn ymweld â Chanolfan Ddysgwyr Llyfrgell y Fflint, ac mae disgyblion o Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Plas Brondyffryn yn ymweld â llyfrgelloedd y Rhyl a Dinbych yn rheolaidd i fwynhau'r llyfrau a'r adnoddau a datblygu sgiliau wrth ddefnyddio cyfleusterau cymunedol.
 - Mae disgyblion mewn ysgolion arbennig yn cael ymweliadau rheolaidd gan y gwasanaeth llyfrgell Lori Ni. Mae disgyblion Uned Gwyrfai (rhan o Ysgol Pendalar) yn mynd i'r sesiwn stori fisol yn y llyfrgell.
 - Mae gweithwyr Dechrau Da Sir Ddinbych yn ymweld â wardiau'r plant a chlinigau plant yn Ysbyty Glan Clwyd i gyrraedd plant sy'n dioddef o salwch tymor hir.
 - Mae disgyblion o Ysgol y Bont yn ymweld â llyfrgell Llangefni ddwywaith yr wythnos i fwynhau'r llyfrau a'r adnoddau yno a datblygu sgiliau wrth ddefnyddio cyfleusterau cymunedol.
 - Derbyniodd staff llyfrgell ar draws y rhanbarth hyfforddiant ar sut i gyflwyno storïau mewn modd aml-synhwyraidd i blant ag anawsterau dysgu dwys a difrifol.
- 3.3 Plant sy'n derbyn gofal: Mae'r Gwasanaethau Llyfrgell yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i blant sy'n derbyn gofal gael mynediad llawn i wasanaethau llyfrgell. Anogir y plant i fod yn aelodau o'u llyfrgell leol â'u teulu gwaed a'u teulu maeth, fel bo'n briodol, a gall teuluoedd maeth fenthyca llyfrau ac adnoddau ychwanegol. Mae Sir Ddinbych a Wrecsam wedi trefnu sesiynau ymweld ag awduron i blant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd.
- 3.4 Teithwyr:
- Mae Llyfrgellydd Plant Wrecsam yn ymweld â'r safle swyddogol i deithwyr bob mis.
- 3.5 Chwarae:
- Gwnaeth 707 o blant yng Ngwynedd gymryd rhan mewn un o 35 o sesiynau fel rhan o Hwyl yr Haf mewn Llyfrgelloedd – gweithgareddau addysgol yn y gwyliau haf a gyllidwyd gan Grant Chwarae Gwynedd. Roedd y sesiynau addysgol hyn yn annog plant a'u teuluoedd i ddysgu rhywbeth newydd, yn ogystal â bod yn ddull o groesawu pobl i'r llyfrgelloedd.
 - Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn Ynys Môn yn trefnu rhaglen o weithgareddau amrywiol yn flynyddol, wedi eu hanelu at blant o bob oed. Cymrodd 673 o blant ran yn y rhaglen boblogaidd hon, ac mae tystiolaeth ei bod yn ddull llwyddiannus o ddenu defnyddwyr newydd yn ogystal â bod yn fodd i groesawu teuluoedd i'r llyfrgell



4 Cefnogi'r cwricwlwm

4.1 Ymweliadau dosbarth:

- Gwnaeth 10,556 o ddisgyblion ysgol o bedwar awdurdod ymweld â'u llyfrgell leol gyda'u dosbarth i weld y gwasanaethau sydd ar gael, cael cyfle i edrych ar, dewis a benthycu llyfrau i'w darllen, dysgu sut mae'r llyfrgell yn medru eu helpu â'u gwaith cartref a dysgu, cofrestru ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf a datblygu'r arfer o ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd.

4.2 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu: Gellir defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngwyd am ddim i gefnogi astudio a gwaith cartref. Mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu eu sgiliau TGCh a chael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

- Cofnodwyd 99,751 o sesiynau cyfrifiadurol gan blant a phobl ifanc ar draws pum awdurdod.

4.3 Hanes: Mae llyfrgelloedd yn cynnwys ystod eang o adnoddau hanes lleol sy'n adlewyrchu adnoddau hanesyddol cyfoethog y sir, yn cynnwys mapiau, hen bapurau newydd, pamffledi a chyfnodolion, cyfeiriaduron lleol ac erthyglau gan awduron lleol. Mae'r llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Archifau i alluogi plant ac ysgolion weld dogfennau a chofnodion gwreiddiol.

- Gellir defnyddio gwefannau hanes teulu a hel achau megis Ancestry.com a Find my Past am ddim yn y llyfrgelloedd.

4.4 Creadigrwydd a'r Celfyddydau: Mae llyfrgelloedd yn darparu profiadau a manau creadigol i blant a theuluoedd. Mae ymweliadau gan awduron plant a'r Sgwadiu Sgwennu yn gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu creadigol. Mae gan nifer o lyfrgelloedd orielau, cyfleusterau amgueddfa, manau arddangos ac ystafelloedd cyfarfod. Maent yn cynnig cyfle i ysgolion lleol weld arddangosfeydd o arwyddocad lleol a chenedlaethol, a chyfleusterau i arddangos gwaith creadigol y plant eu hunain.

4.5 Cerddoriaeth: Mae gan rai awdurdodau gasgliadau o gerddoriaeth wedi'u hargraffu – sgorau llais, sioeau cerdd, operâu, caneuon, unawdau offerynnol a sgorau bach i'w benthycu i ysgolion, corau, cerddorfeydd a myfyrwyr unigol.

4.6 Prosiectau a gwaith ymchwil trawsgwricwlaidd a thematig: Mae'r llyfrgelloedd yn cefnogi plant gyda'u gwaith ymchwil a'u gwaith cartref, gan ddarparu adnoddau ar-lein, llyfrau, ffynonellau cynradd, mapiau a DVDau, yn ogystal â chymorth i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau dysgu'n annibynnol.

- Mae gan Lyfrgell Wrecsam gasgliad o becynnau cynorthwyo â gwaith cartref wedi eu llunio ar gyfer elfennau penodol yn y cwricwlwm.

4.7 Addysg bersonol a chymdeithasol: Mae bod yn aelod o, a defnyddio'r llyfrgell, yn hybu ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherthyn. Anogir plant i ymweld â'r llyfrgell a defnyddio'r gwasanaethau fel dinasyddion ifanc, gan ddatblygu eu hymdeimlad o ymwneud â'r gymuned a chyfrifoldeb personol. Mae defnyddio'r llyfrgell yn gam cyntaf pwysig mewn dinasyddiaeth leol a chyfrifoldeb cymunedol.

“ Mi rydw i yn hoffi'r llyfrgell, nid bod o yn adeilad i fynd ar cyfrifiaduron, i fynd ar safwe fel Facebook, ond i ddarllen, ac canolbwyntio ar y effaith mae llyfrau yn cael ar ein ymenydd a dennyg (sic) o'r byd erchyll sef 'reality'”
Sylw darllenydd ifanc - cerdyn Canmoliaeth? Cwyn?

4.8 Pontio:

- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth a Diwylliant Conwy yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n gweithio ar y prosiect Pontio Llythrennedd Saesneg yn ystod gwyliau'r haf ac sy'n dymuno gweld deunyddiau ar y we ac mewn llyfrau.
- Hyrwyddir Sialens Ddarllen yr Haf fel cyfrwng i gefnogi trosglwyddo o ysgolion babanod i ysgolion iau yn Sir Ddinbych.

5 Cynllunio Strategol

Mae gan ysgolion a llyfrgelloedd draddodiad hir o weithio gyda'i gilydd i hybu darllen, llythrennedd gwybodaeth ac ymwneud â'r gymuned. Mae lefelau cynllunio'r gwaith hwn yn strategol, a mesur ei effaith, yn amrywio. Mewn rhai awdurdodau mae'r holl weithgareddau yn rhan o gynllun partneriaeth strategol, tra mewn eraill mae gweithgareddau a rhaglenni penodol yn rhan o gynlluniau penodol.

- Mae Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych wedi cytuno ar Gynllun Partneriaeth Llyfrgelloedd ac Ysgolion ar lefel strategol gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiad. Mae'r bartneriaeth hon yn cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau ar y cyd i gefnogi llythrennedd ac yn annog ysgolion i gynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r llyfrgell yn eu cynllun gwella llythrennedd.
- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd yn arwain 'Grŵp Llythrennedd a Llenyddiaeth', sef grŵp rhyng-adrannol sy'n trefnu a monitro gweithgareddau i hybu llythrennedd a mwynhau darllen ar y cyd.

Mae gwasanaethau llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion, a staff ymgynghorol a blynyddoedd cynnar, ar draws y rhanbarth.

“Just 14% of variation in individuals' performance is accounted for by school quality. Most variation is explained by other factors, underlining the need to look at the range of children's experiences, inside and outside school, when seeking to raise achievement.”
Donald Hirsch, Experiences of poverty and educational disadvantage
(Joseph Rowntree Foundation 2007)

6 Cefnogi teuluoedd

Mae'n ofynnol yn statudol i awdurdodau lleol ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Fe'u rheolir gan y Gwasanaeth Llyfrgell yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Wrecsam. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd am ddim ar unrhyw faterion yn ymwneud â phlant, gofal plant a theuluoedd. Cynigir gwybodaeth i rieni wrth ddewis gofal plant ac ysgolion, cael lle addysg i blant tair oed, symud i'r sir a chael gwasanaethau cymorth. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth agos â Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a phartneriaid aml-asiantaeth yn y rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg.

- Mae llyfrgelloedd Gwynedd a Sir y Fflint yn cadw casgliadau arbennig o lyfrau plant sy'n ymdrin â sefyllfaoedd penodol, i gynorthwyo plant a phobl ifanc oresgyn y lluo o heriau sy'n dod i'w rhan.
- Mae gan lyfrgelloedd yn Sir Ddinbych, Conwy a Sir y Fflint gasgliadau o lyfrau ar fagu plant, datblygiad y plentyn a bywyd teuluol.
- Mae'r llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Iechyd Plant a Phobl Ifanc i ddarparu gwasanaeth presgripsiwn llyfrau i bobl â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau rhianta.



7 Yr hyn a gynnigir gan y llyfrgell

7.1 Aelodaeth llyfrgell am ddim, a gynnigir i bob plentyn o ddiwrnod ei eni

- Mae 38% o blant a phobl ifanc 0-15 oed yng ngogledd Cymru yn aelodau gweithgar o'r llyfrgell (45,967 o unigolion)
- Daeth 10,327 o blant a phobl ifanc yn aelodau llyfrgell y llynedd.
- Nid yw plant yn talu dirwy am ddychwelyd llyfrau'n hwyr, ac nid yw'r rhai dan 5 oed yn talu am lyfrau wedi'u difrodi neu lyfrau a gollwyd.

7.2 Mae llyfrgelloedd ar agor y tu hwnt i oriau ysgol a thrwy gydol y gwyliau ysgol

- Cafwyd 417,612 o ymweliadau â'r llyfrgell gan blant mewn pedwar awdurdod (4901 am bob 1000 o boblogaeth ar gyfartaledd)
- Roedd 72 o lyfrgelloedd yn cynnig mynediad at adnoddau a chyfleusterau 6 diwrnod yr wythnos, ac mae'r llyfrgell ar-lein 24 awr y dydd yn rhoi mynediad i ffynonellau gwybodaeth a chatalog y llyfrgell trwy'r amser.
- Ar gyfartaledd mae 67% o lyfrgelloedd ar agor ar ddydd Sadwrn i roi cyfle i blant ddefnyddio'r adnoddau, cyfrifiaduron a'r lle i astudio.

"Mae Llyfrgell Bangor wedi gwneud argraff fawr arna' i. Mae'n lân, ffres ac yn olau, ac mae adran y plant yn atyniadol, diddorol a phriodol. Rydw i wedi teimlo fy mod wedi cael fy ngalluogi fel rhiant i helpu fy mhlentyn i ddysgu. Mae'n amgylchedd dysgu rhagorol."

7.3 Mae llyfrgelloedd yn rhoi mynediad am ddim at lyfrau a gwybodaeth

Mae gan Wasanaethau Llyfrgell amrediad eang o lyfrau a ffynonellau gwybodaeth i gefnogi dysgwyr o bob oedran a diddordeb, o lyfrau lluniau i ffuglen boblogaidd a'r clasuron, ac o ganllawiau pwnc i ddeunyddiau cyfeiriol ac ymchwil.

Mae pob llyfrgell yn cynnig casgliadau mawr o lyfrau cyfoes ansawdd uchel yn y Gymraeg a Saesneg i blant mewn amrywiaeth o fformatau, yn cynnwys llyfrau bwrdd i fabis a phlant bach, llyfrau lluniau ar gyfer rhannu llyfrau, llyfrau i ddarllenwyr ifanc sy'n dysgu darllen, ffuglen ar gyfer darllen er mwyn pleser, a llyfrau gwybodaeth i gefnogi dysgu a diddordebau. Gellir benthycu llyfrau print bras a llyfrau ar gryno ddisg neu MP3 hefyd. Mae gan Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy gasgliadau o sachau stori i'w benthycu i deuluoedd a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

- Mae £288,417 yn cael ei wario y flwyddyn ar 56,212 o lyfrau ac adnoddau eraill i blant ar draws y chwe awdurdod.
- Mae'r gwariant ar lyfrau ac adnoddau eraill i blant, am bob 1000 o boblogaeth 0-15 oed, yn amrywio o £1,483 i £3,443.
- Mae plant a phobl ifanc yng ngogledd Cymru yn benthycu 976,613 o lyfrau ac eitemau eraill bob blwyddyn.

Mae gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad i adnoddau'r holl lyfrgelloedd yng Nghymru. Yng ngogledd Cymru sefydlwyd partneriaeth benodol, LINC y Gogledd, sy'n cynnwys y chwe gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus a'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Gall cwsmer llyfrgell yng Nghymru fenthycu a dychwelyd unrhyw eitem o'r stoc fenthycu o unrhyw lyfrgell, am ddim. Mae gan lyfrgelloedd gytundeb tebyg i ddatblygu darpariaeth adnoddau ar-lein yn gydweithredol hefyd.

7.4 Llyfrgell ar-lein 24 awr y dydd

Mae gwedudalennau llyfrgell yn darparu estyniad i'r gwasanaethau darllen a gwybodaeth ymhell y tu hwnt i'r oriau agor, a gellir eu defnyddio unrhyw bryd yn unrhyw le. Mae catalogau ar-lein yn rhestru holl adnoddau'r llyfrgell, a gall defnyddwyr wneud cais am ac adnewyddu eitemau. Mae modd gweld ystod o wyddoniaduron, geiriaduron, papurau newydd cenedlaethol, bywgraffiadau a chyfeiriaduron ar-lein.

- Her y We yw enw llyfrgell plant rhithwir a sefydlwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd mewn partneriaeth â Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn. Mae'n cynnig lle diogel i blant oedran ysgol gynradd ganfod gwybodaeth am lyfrau ac awduron, ac mae'n cynnwys cysylltiadau addas i bynciau'r cwricwlwm ynghyd â gemau a gweithgareddau'n gysylltiedig â llyfrau a llythrennedd. Mae'r safle'n cael ei datblygu ymhellach ar hyn o bryd gyda gweithgareddau wedi eu seilio ar lyfrau sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r safle ysgolion uwchradd yn becyn i gynorthwyo llyfrgellwyr ac athrawon hybu llyfrau a llythrennedd yn y sector uwchradd.

7.5 Cyfleusterau dysgu i gefnogi astudio a gwaith cartref

Mae llyfrgelloedd yn cynnig lle, llyfrau a chyfrifiaduron, a chymorth staff, i gefnogi plant a phobl ifanc â'u gwaith cartref, prosiectau a gwaith cwrs, mewn awyrgylch sy'n hybu astudio. Maent yn fannau niwtral sy'n cynnig dewis amgen i bobl ifanc lle nad yw'r adnoddau ar gael neu lle nad ydynt yn addas yn yr ysgol neu gartref.

Mae rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn uwchraddio a moderneiddio nifer o lyfrgelloedd yn y rhanbarth, gan greu cyfleusterau modern a deniadol â manteision technolegol megis gwasanaeth di-wifr am ddim a chyfleusterau hunan wasanaeth, sy'n denu plant a phobl ifanc.


"For children, libraries are a place that isn't tested or limited or assigned, a place where children can find surprising paths and guidance if they want it.
"Librarians open up the world. Knowledge is useless if you don't even know where to begin to look. How much more can you discover when someone can point you in the right direction, when someone can maybe even give you a treasure map, to places you may not have even thought you were allowed to go? This is what librarians do."
Patrick Ness, ar ôl ennill Medal Carnegie 2011

8 Barn plant

Fe holir plant yn rheolaidd am eu barn ar eu llyfrgell leol a'r gwasanaeth a gynigir. Dan fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, mae'n ofynnol ar awdurdodau i gynnal arolwg CIPFA Children's Public Library User bob tair blynedd. Mae arolygon diweddar yn Sir y Fflint, Gwynedd a Môn yn dangos effaith llyfrgelloedd ar blant.

Mae defnyddio'r llyfrgell wedi fy helpu i :

	Ddarllen yn well	Wneud yn well yn yr ysgol	Ddefnyddio cyfrifiaduron yn well
Sir y Fflint	66%	45%	17%
Gwynedd	69.1%	49.8%	30.9%
Môn	75%	46%	14%
Deyrnas Unedig	60%	39%	20%



9 Gwasanaethau Llyfrgell Ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion yn darparu gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r cwricwlwm ac addysg ffurfiol plant yn yr ysgol. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys benthyca llyfrau ac adnoddau eraill am gyfnodau byr neu hir, gwasanaethau cynghorol i gefnogi llyfrgelloedd ysgolion, a gweithgareddau i hybu sgiliau llythrennedd a dysgu.

Ceir dau fodel darpariaeth gwahanol yng ngogledd Cymru:

- Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gogledd Ddwyrain Cymru sy'n darparu gwasanaeth i Sir y Fflint (awdurdod arweiniol), Sir Ddinbych, Wrecsam a Chonwy.
- Gwasanaeth integredig â'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus wedi ei seilio ar danysgrifio i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

"Learning that takes place in activities outside school tends to be seen as auxiliary to the education process. Yet evidence...suggests that it is crucial. Such activities can help children develop confidence in learning, to become active learners and to develop a different kind of relationship with adult instructors or supervisors;...they become used to seeing learning as a partnership;...young people from families in poverty participate in fewer organised out-of-school activities than their more affluent peers."

*Donald Hirsch, Experiences of poverty and educational disadvantage
(Joseph Rowntree Foundation 2007)*

10 Casgliad

Mae'r Gwasanaethau Llyfrgell yng ngogledd Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gwella safonau addysg a datblygiad personol plant. Maent yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion a staff yr Awdurdod Addysg Lleol i ddatblygu gwasanaethau effeithiol ac addas a gweithgareddau priodol i wella dysgu a lles plant a phobl ifanc o bob oedran a gallu. Maent hefyd yn gweithio'n agos ag asiantaethau gwirfoddol a statudol i gynnig gwasanaethau tu allan i oriau ysgol sy'n cymell ac ysbrydoli er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd.

Atodiad 1	Ynys Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Gogledd Cymru
Poblogaeth 0-15 oed Amcangyfrif canol blwyddyn 2010	12,289	20,765	19,052	17,248	28,130	24,980	122,464
laith, Llythrennedd a Darllen							
Cyfranogiad yn Sialens Ddarllen yr Haf 2011	547	2000	1782	4859	3953	1138	14279
% y plant 4-11 oed yn cymryd rhan yn y Sialens (wedi ei seilio ar 50% o'r rhai 0-15 oed)	4.5%	19.3%	9.4%	56.3%	14.0%	4.5%	23.30%
Cyfradd cwblhau Cyfartaledd Cymru 2010 55%	56%	70.7%	59%	68%	55.7%	47%	61.68%
Sgwadiâu Sgwennu	dim	3 sgwad – 9-11, 12-14 a 15+ oed	Ddim yn ddarpariaeth Gwasanaeth Llyfrgell	4 sgwad – 9-11, 11- 14 oed yn y ddwy iaith	dim	2 sgwad	
Presenoldeb mewn digwyddiadau llyfrau a chwrdd ag awduron	2,500 o blant	2802 o blant	720+ o blant	2453 o blant	3499 o blant	2,000+ o blant	13,974
Amser rhigwm a stori Dechrau Da	anhysbys	Amcangyfrifir 2,770 wedi mynychu	2,741 wedi mynychu	13,835 wedi mynychu	5,646 wedi mynychu	6,462 wedi mynychu	31,454
Cefnogi'r cwricwlwm							
Ymweliadau â llyfrgelloedd fel dosbarth	anhysbys	anhysbys	704 o blant	3306 o blant	2061 o blant	4,485 o blant	10,556
Defnyddio cyfrifiaduron Nifer y sesiynau gan rai 0-15 oed	anhysbys	30,000+ 2009/10	20,756 2009/10	8,691	19,125 2009	21,179	99,751
% cyfanswm y sesiynau	anhysbys	26%	16.32%	11%	15.75%	21%	
Cefnogi teuluoedd							
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	6,380 ymweliad	11,894 ymweliad 2009/10	20,641 ymweliad 996 ymholiad	anhysbys	anhethnasol		

Yr hyn a gynnigir gan llyfrgelloedd cyhoeddus		Ynys Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Gogledd Cymru
Plant 0-15 oed sy'n aelodau llyfrgell gweithgar	3,637	7,668	4,741	8,574	10,681	10,666	45,967	
% y rhai 0-15 oed sy'n aelodau llyfrgell gweithgar	30%	37%	25%	50%	38%	43%	38%	
Fel % o gyfanswm aelodaeth llyfrgell	26%	25%	anhysbys	32%	34%	29%	29%	
Aelodau newydd	919	1,241 2009/10	1,667	1,921	2,384	2,235	10,327	
Ymweliadau llyfrgell gan rai dan 16 oed	anhysbys	110,814 2009/10	57,775	92,243	156,780	anhysbys	417,612 4 awdurdod	
Ymweliadau am bob 100 o'r boblogaeth 0-15 oed	anhysbys	5,336	3,032	5,348	5,573	anhysbys	4,901 4 awdurdod	
Mynediad i lyfrgelloedd	10 llyfrgell 1 llyfrgell symudol 70% ar agor ar y Sadwrn	17 llyfrgell 4 llyfrgell symudol 65% ar agor ar y Sadwrn	12 llyfrgell 1 llyfrgell symudol 58% ar agor ar y Sadwrn	8 llyfrgell 88% ar agor ar y Sadwrn	13 llyfrgell 1 llyfrgell symudol 69% ar agor ar y Sadwrn	12 llyfrgell 1 llyfrgell symudol 50% ar agor ar y Sadwrn	72 llyfrgell 8 symudol 67% ar agor ar y Sadwrn	
Rheolwr sy'n arwain y gwasanaethau i blant	Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc	Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr	Llyfrgellydd Dysgu Gydol Oes	Rheolwr Gwasanaethau Darllen	Llyfrgellydd Dysgu Gydol Oes	Llyfrgellydd Plant	-	
Gwariant ar lyfrau ac adnoddau	£28,898	£62,500 2009/10	£33,400	£29,701	£71,999	£70,203	£296,701	
% o gyfanswm cyllideb adnoddau'r Gwasanaeth Llyfrgell	25%	22.5%	20%	21.6%	24.4%	20.8%	Cyfarlodedd 22.38%	
Gwariant am bob 1000 o boblogaeth 0-15 oed	£2,351	£3,009	£1,753	£1,721	£2,560	£2,810	£2,422	
Nifer y llyfrau ac eitemau eraill a brynwyd	6,209	9,478	5,767	7,801	12,021	11,323	56,212	
Llyfrau a fenthycwyd	78,902	187,499 2009/10	91,536	158,562	289,443	172,075	976,613	
% o gyfanswm y benthyciadau	27%	29%	16%	28.4%	37%	25%	27%	
Benthyciadau am bob 1000 o boblogaeth 0-15 oed	6,420	9,029	4,804	9,193	10,289	6,888	7,974	